**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Sarah Rees
Oxfam Cymru

Annwyl Sarah,

8 Ebrill 2024

Camau Bach, Brwydrau Mawr: Gofal Plant yng Nghymru

Diolch ichi am eich llythyr a'ch diddordeb yng ngwaith dilynol y Pwyllgor ar ofal plant. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb ichi. Nodwyd eich gohebiaeth yn ein cyfarfod ar 5 Chwefror, ond ni fu modd imi roi ymateb ystyrlon ichi hyd yma oherwydd yr ansicrwydd o ran ein blaenraglen waith.

Rydym yn ddiolchgar ichi am dynnu sylw at eich adroddiad diweddaraf ac am rannu manylion ynghylch eich gwaith ymgysylltu â sefydliadau llawr gwlad, gan gynnwys rhieni a theuluoedd. Yn eich llythyr, rydych yn cynnig rhoi tystiolaeth ffurfiol i'n hymchwiliad. Er bod rhai Aelodau yn awyddus i dderbyn eich cynnig, ar ôl ystyried eich cais ymhellach, rwyf o'r farn y dylem ei wrthod yn gwrtais y tro hwn.

Mae sawl rheswm am hyn. Un rheswm yw statws y gwaith hwn, sef gwaith dilynol i'r ymchwiliad gwreiddiol a'r angen i sicrhau bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ddatrysiadau posibl yn hytrach nag edrych unwaith eto ar yr heriau sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio a'r sector. Erbyn hyn, rydym yn deall yn weddol dda yr heriau hyn, sy'n ddilys ac o gryn bryder wrth gwrs, a chafwyd trafodaeth helaeth yn eu cylch yn ystod yr ymchwiliad gwreiddiol a dyna pam y gwnaethom benderfynu canolbwyntio ar ddatrysiadau. At hynny, mae'r penderfyniad i ohirio'r rhan fwyaf o'r ymchwiliad hwn er mwyn edrych ar frys ar honiadau brawychus o gamymddwyn o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi lleihau'r amser sydd ar gael inni ac felly byddai'n anodd darparu ar gyfer paneli ychwanegol heb oedi'r ymchwiliad ymhellach.

Rwy'n gwerthfawrogi y gallai'r penderfyniad hwn beri siom ichi ac i'r sefydliadau yr ydych yn gweithio gyda hwy. Fodd bynnag, mae ffyrdd eraill y gallai eich adroddiad gael effaith a byddwn yn hapus i drefnu cyfarfod i drafod eich canfyddiadau yn fanylach. Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfarfod, mae croeso ichi siarad â'r Tîm Clercio i drefnu dyddiad cyfleus.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Diolch unwaith eto ichi am eich diddordeb yn y mater hwn ac am dynnu ein sylw at y gwaith hwn.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.